# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwyddfor Residential**

**Cartref Gofal Gwyddfor**
**Bodedern**
**Caergybi**
**LL65 3PD**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/03/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Gwyddfor

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwyddfor Residential Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 9 Ionawr 2020 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy |

## Crynodeb


Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, ac ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried themâu yr amgylchedd / gofal a chymorth / arwain a rheoli yn llawn.

Mae'r bobl yn hapus â'r gofal a'r cymorth a gânt gan weithwyr gofal sydd wedi'u hyfforddi'n dda. Mae'r staff gofal yn wybodus, yn barchus ac yn ofalgar, ac mae digon ohonynt ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Mae dogfennaeth gofal y bobl yn fanwl, ac mae'n rhoi cyfarwyddiadau priodol i'r staff ar sut i roi cymorth. Mae mesurau rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith ac nid oes unrhyw beth yn rhwystro'r allanfeydd tân. Caiff y bobl sy'n byw yng nghartref Gwyddfor a'r staff gofal eu cefnogi gan Unigolyn Cyfrifol a rheolwr sy'n ystyried eu barn a'u hanghenion.

## Llesiant

Gofynnir i'r bobl fynegi eu barn a gwelir hynny yn eu ffeiliau cymorth. Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae dogfennaeth gofal a chymorth y bobl yn fanwl ac mae'n rhoi cyfarwyddiadau digonol i'r staff ar sut i gefnogi unigolion, a dywedodd y staff gofal wrthym ei bod yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r unigolyn sy'n cael cymorth. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau.

Mae gan y gwasanaeth fesurau da ar waith i sicrhau bod y bobl sy'n cael gwasanaeth yn cael eu diogelu rhag niwed. Caiff staff gofal sydd wedi cael hyfforddiant addas eu cyflogi mewn niferoedd digonol i sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt mewn modd amserol. Mae mesurau rheoli heintiau yn fanwl a chaiff y staff eu hyfforddi i'w rhoi ar waith. Mae'r staff yn dilyn cynlluniau personol yn agos ac mae'r cynlluniau hyn yn adlewyrchu anghenion yr unigolyn yn gywir.

Caiff y bobl eu diogelu am fod y staff gofal yn gwybod sut i godi pryderon os byddant yn amau bod llesiant unigolyn yn cael ei beryglu. Gwnaeth cofnodion hyfforddiant a'n trafodaethau â'r gweithwyr gofal ddangos eu bod yn cael hyfforddiant ar ddiogelu a chwythu'r chwiban ac maent yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith os bydd angen iddynt eu dilyn.

## Gofal a Chymorth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Caiff y bobl ofal a chymorth o ansawdd da sydd wedi'u teilwra i anghenion a dymuniadau'r unigolyn y mae'r staff gofal yn ymwybodol ohonynt. Mae cynlluniau gofal personol manwl ar waith ac maent yn rhoi cyfarwyddiadau cynhwysfawr i'r staff ar sut i gefnogi'r unigolyn. Maent hefyd yn adlewyrchu dymuniadau'r unigolyn o ran y ffordd y mae am gael ei gefnogi. Gwnaethom edrych ar gynlluniau personol a dogfennaeth arall a oedd yn dangos bod anghenion a dewisiadau'r unigolyn o ran meysydd megis ymolchi, faint o obenyddion yr hoffai eu cael, faint o'r gloch mae'n codi yn y bore a gofal ymataliaeth, yn cael eu cofnodi. Gwnaethom siarad â'r staff a'r preswylwyr a gadarnhaodd hyn a bod y bobl yn cael y cymorth yr oeddent am ei gael ac yr oedd ei angen arnynt. Gwnaethom siarad â phreswylydd a oedd wedi codi'n gynnar yn y bore. Cadarnhaodd fod hyn yn unol â'i ddymuniadau a gwelsom fod hyn wedi'i ddangos yn glir yn ei gynllun personol. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff gofal a'r preswylwyr a gwnaethom siarad â'r bobl sy'n byw yn y cartref a gadarnhaodd eu bod yn cael eu trin ag urddas. Dywedodd un unigolyn wrthym *“I am happy here, I get the support I need and I am treated with kindness and respect” (“Rwy'n hapus yma, rwy'n cael y cymorth sydd ei angen arnaf ac rwy'n cael fy nhrin â charedigrwydd a pharch”).*

Caiff meddyginiaeth ei rhoi a'i storio'n ddiogel, sy'n sicrhau bod iechyd a llesiant y bobl yn cael eu diogelu. Gwelsom fod y staff sy'n rhoi meddyginiaeth wedi'u hyfforddi'n briodol a bod eu cymhwysedd yn cael ei adolygu. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau o adolygiadau o stociau, cofnodion a threfniadau storio meddyginiaeth yn cael eu cynnal yn fisol a bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel ac yn briodol. Gwelsom y staff yn rhoi meddyginiaeth mewn ffordd briodol. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a ddywedodd wrthym fod meddyginiaeth yn cael ei rhoi mewn ffordd briodol gan y staff sydd wedi'u hyfforddi.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae trefniadau da ar waith i sicrhau bod y risgiau i iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu lliniaru. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith o ran atal heintiau, ac nid oedd unrhyw beth yn rhwystro'r allanfeydd tân ac roeddent yn hygyrch i'r staff a'r preswylwyr.

## Arwain a Rheoli

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Caiff y bobl gymorth gan niferoedd priodol o staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda sy'n galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael hyfforddiant rheolaidd a phriodol ar gyfer anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi, a gwelsom gofnodion hyfforddiant a gadarnhaodd hyn. Gwnaethom hefyd siarad â'r bobl a gadarnhaodd fod y cymorth y maent yn ei gael yn diwallu eu hanghenion. Gwelsom fod niferoedd priodol o'r staff nos ar ddyletswydd a chadarnhaodd y staff gofal fod niferoedd y gweithwyr gofal yn eu galluogi i ddiwallu anghenion y bobl drwy gydol y dydd a'r nos. Gwnaethom siarad â'r bobl a gadarnhaodd hefyd fod digon o staff gofal wedi'u cyflogi a'u bod yn gallu diwallu eu hanghenion mewn modd amserol. Dywedodd un unigolyn sy'n byw yng nghartref Gwyddfor wrthym*“care and support is provided when people need it, without delay, day and night” (“caiff gofal a chymorth eu darparu pan maent eu hangen ar bobl, heb oedi, ddydd a nos”).*

Caiff y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth eu cefnogi i godi pryderon am y gwasanaeth drwy weithdrefnau chwythu'r chwiban. Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y cartref a'r gefnogaeth a gânt gan y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym *“I've had an amazing experience working here, I've never had a bad day” (“Rwyf wedi cael profiad anhygoel yn gweithio yma, nid wyf erioed wedi cael diwrnod gwael”).* Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn gallu codi pryderon â'r rheolwyr a bod y rheolwyr yn barod i wrando arnynt. Gwelsom dystiolaeth bod chwythu'r chwiban yn cael ei drafod â'r staff fel rhan o'u goruchwyliaeth, ac mae hyfforddiant ar chwythu'r chwiban wedi cael ei ddarparu. Gwnaethom siarad â'r staff a gadarnhaodd eu bod yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
|---|

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/06/2021